O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 331 (Cy. 35)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pont-y-pant, ger Dolwyddelan, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*15 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*25 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Maentwrog — Man i'r Dwyrain o Gonwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pont-y-pant, ger Dolwyddelan, Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 25 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A470 ger Dolwyddelan, ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn o bwynt 100 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Bryn Hyfryd,